Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Gwydir

Heol Watling
Llanrwst
Conwy
LL26 0EY

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Gwydir

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Gwydir |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 331 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 255 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 37 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 14.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 12.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 56.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.3% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 26/02/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/06/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Gwydir yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi pwyslais cadarn ar ddysgu, lles a datblygiad personol disgyblion. Mae gan y pennaeth weledigaeth flaengar sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu diddorol mewn amgylchedd dysgu difyr a gofalgar. Mae hyn yn cyfrannu'n bwrpasol at ymddygiad ardderchog a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion. Mae'r weledigaeth synhwyrol hon, sy'n cynnwys cyfraniadau o'r staff a'r gymuned ehangach, yn cefnogi arferion gwella'r ysgol yn llwyddiannus.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau darpariaeth gwricwlaidd eang a chytbwys. Maent yn dîm o staff effeithiol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn fwriadus. Maent yn cydweithio'n frwd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion a'u cymuned yn dda. Mae Uned Anghenion Cymhedrol yr awdurdod lleol, sydd ar safle'r ysgol, yn darparu gofal effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn yr uned yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u targedau personol.

Mae rhediad y sesiynau addysgu yn cyfatebu'n dda i ddysgu disgyblion. Mae adborth yr athrawon i ddisgyblion i wella'u dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn arferion adborth athrawon wrth herio dysgu'r holl ddisgyblion. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n bwrpasol ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn yn arwain at gynnydd cadarn ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ymestynnol i gymhwyso'u medrau ar lefelau priodol ar draws y cwricwlwm.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau'n ddeallus, sy'n datblygu eu parch at bobl eraill yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, sy'n creu ymwybyddiaeth dda o'u cynefin a gwerthfawrogiad diwylliannol cryf.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Darparu adborth buddiol i herio dysgu’r holl ddisgyblion

A2. Cynyddu’r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso’u medrau ar lefelau priodol ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Bro Gwydir yn gymuned ddysgu hapus, gynhwysol a chefnogol. Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol a blaengar ar gyfer yr ysgol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohono hi ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae hi'n cydweithio'n ddiwyd gyda'r tîm arwain, y staff a'r llywodraethwyr i sicrhau profiadau dysgu difyr a pherthnasol i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn arddel gweledigaeth glir yn llwyddiannus. Mae hyn yn seiliedig ar sicrhau profiadau dysgu ysgogol i ddisgyblion, a lles a gofal bwriadus i holl aelodau'r gymuned ysgol.

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn glodwiw. Mae hi'n sicrhau bod yr holl dîm arwain yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth i adnabod blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddatblygu'r ddarpariaeth i wella lles, profiadau dysgu a chynnydd ym medrau'r disgyblion. Mae holl dîm yr ysgol yn cyfrannu at y gweithdrefnau gwerthuso yn bwrpasol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau wrth ganolbwyntio ar ddatblygu'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn gweithredu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu, datblygu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Maent yn rhannu syniadau a mabwysiadu arferion effeithiol a pherthnasol ar y cyd yn ddoeth, ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ethos yr ysgol fel sefydliad dysgu. Mae arweinwyr yn cefnogi staff i fyfyrio ac ystyried effaith y dysgu proffesiynol ar les, medrau a dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn cynnal trafodaethau proffesiynol cyson i drafod agweddau penodol o'r cwricwlwm, eu harferion asesu ac i dreialu egwyddorion newydd i barhau i gefnogi lles a chynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn meithrin perthynas effeithiol â rhieni. Mae'r cydweithio a'r cyfathrebu parhaus yn hybu'r ysgol yn ei chymuned yn effeithiol. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion a'i chymuned yn hynod o dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi lles a dysgu eu plant. Er enghraifft, mae staff yn cynnal gweithdai gyda rhieni a'r disgyblion am wahanol agweddau o'r cwricwlwm, ac yn eu cefnogi i ddatblygu eu dealltwriaeth o waith, lles a chynnydd eu plant yn ystod yr 'Awr Agored' a'r 'Caffi i Rieni'.

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn fodelau iaith effeithiol a chadarn ac maent yn gweithredu disgwyliadau uchel ynglŷn â'r Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn annog disgyblion i siarad Cymraeg a gwneud defnydd pwrpasol o'r iaith fel rhan greiddiol o'u dysgu a'u chwarae. Mae agweddau brwd gan y rhan fwyaf o ddisgyblion at siarad Cymraeg ar draws yr ysgol ac maent yn ymdrechu'n rheolaidd i gyfathrebu'n gynyddol ddigymell mewn gwahanol gyd-destunau. O ganlyniad, erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus a huawdl i gyfathrebu yn y ddwy iaith.

Mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn drwyadl. Mae medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gadarn. Mae disgyblion yn defnyddio'u marciau cynnar yn hyderus, ac wrth i'w medrau ddatblygu ymhellach, maent yn dechrau ysgrifennu brawddegau, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o sillafu ac atalnodi sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu da, yn y ddwy iaith ac mewn ystod o ffurfiau difyr.

Mae athrawon yn cynllunio, paratoi cyfarpar ac yn cyflwyno tasgau mathemateg pwrpasol. O ganlyniad, mae'r addysgu'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau rhifedd defnyddiol. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn defnyddio eu medrau digidol yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ymestynnol i gymhwyso'u holl fedrau, ar lefelau priodol, ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a'r byd ehangach yn gelfydd, er enghraifft drwy ddysgu am daith y Cymry ar 'Y Mimosa' i Batagonia. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd synhwyrol i ddisgyblion drafod materion pwysig fel perthnasoedd ac amrywiaeth a phrofiadau pwrpasol i ddatblygu agweddau ysbrydol a moesol cadarnhaol disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch tuag at eraill ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau yn llwyddiannus.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac mae'r perthnasoedd gwaith a'r parch rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n ystyriol â'u cyfoedion. Maent yn gwrando'n ofalus ar athrawon ac yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cynnydd ac mae eu hymddygiad yn ardderchog. Maent yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn ymdrechu'n dda i gyfrannu at drafodaethau dosbarth.

Mae'r athrawon yn esbonio tasgau'n glir ac yn cefnogi disgyblion i gyfrannu at eu dysgu yn fwriadus. Mae'r athrawon yn sicrhau rhediad da i wersi ac yn defnyddio ystod o adnoddau pwrpasol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Yn ogystal, defnyddir cymorthyddion yn ystyrlon i ddarparu cefnogaeth bwrpasol i ddisgyblion. Yn yr arferion addysgu a dysgu gorau, mae athrawon a chymorthyddion yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i hybu dyfalbarhad ymysg disgyblion. Mae hyn yn ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu dysgu ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da. Er hyn, nid yw adborth athrawon bob tro'n herio disgyblion i wella'u gwaith yn ddigon effeithiol.

Mae staff yn darparu amgylcheddau dysgu ysgogol i gymell llwyddiannau a brwdfrydedd ymysg disgyblion. Mae hyn yn hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion yn dda. Mae ystod synhwyrol o fannau tawel i'w defnyddio gan ddisgyblion, pan fo angen, gan gynnwys ardaloedd ymyrraeth deniadol. Maent yn cael eu defnyddio'n ddeallus gan staff i gefnogi lles disgyblion ac i dawelu unigolion mewn achosion o bryder cyn iddynt ailafael â'u dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael ei chydlynu'n grefftus iawn. Mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn effeithiol. Mae'r staff yn gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau a'u mannau cychwyn. Yn ogystal, mae Uned Anghenion Cymhedrol yr awdurdod lleol, sydd ar safle'r ysgol, yn darparu gofal effeithiol i ddisgyblion ag ADY. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn yr uned yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u targedau personol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2025